



CYLCHLYTHYR/NEWSLETTER



Croeso i Gylchlythyr yr Ysgol y Mis Yma!

Cadwch yn gyfoes â phopeth sy'n digwydd yn Ysgol Uwchradd Tywyn! Yn y rhifyn hwn, rydym yn dod â'r newyddion ysgol diweddaraf i chi, digwyddiadau cyffrous sydd ar y gweill, a dathliadau o lwyddiannau anhygoel ein disgyblion. O lwyddiannau academaidd i fuddugoliaethau chwaraeon, prosiectau creadigol, a gweithgareddau arbennig, mae bob amser rhywbeth i fod yn falch ohono yn ein hysgol.

Welcome to This Month's School Newsletter!

Stay up to date with everything happening at Ysgol Uwchradd Tywyn! In this issue, we bring you the latest school news, exciting upcoming events, and a celebration of our students' amazing achievements. From academic successes to sporting victories, creative projects, and special activities, there's always something to be proud of at our school.

BUSNESAU LLEOL
LOCAL BUSINESSES

Diolch!

Diolch yn fawr iawn i'r cwmnïau canlynol am gefnogi Ysgol Uwchradd Tywyn, drwy roi £25 i'n galluogi i argraffu y cylchlythyr yma mewn lliw.

Mae gennym le hysbysebu ar gael o hyd, cysylltwch â ni os oes gennych ddiddordeb.

Thank you!

Many thanks to the following companies for supporting Ysgol Uwchradd Tywyn, by donating £25 to enable us to print this newsletter in colour.

We still have advert space available, please get in touch if interested.

Compton House, Tywyn, Gwynedd, LL36 9AE

Pantri Dysynni

Farm Shop~Butchers~Deli

- Proud to stock a range of Welsh Produce
- Quality Welsh Meat Cut and Prepared by our own Butchers
- Free Range Local Eggs
- Fresh Bread Daily
- Scotch Eggs, Quiches, Cold Meats and Cheeses
- Quality Fruit & Vegtables

Orders Taken for collection on 01654 701674 or pantridysynni@outlook.com

TOAST coffee house

Fresh, locally-sourced food and coffee. Eat in or takeaway! Place your order ahead of time using the number below:

01654 701 466



FISH & CHIPS · ICE CREAM · DESSERTS

Môr

Seabreeze

RESTAURANT WITH ROOMS

Restaurant and rooms open throughout the year.


To book please visit www.seabreeze-aberdovey.co.uk, or email welcome@seabreeze-aberdovey.co.uk

Follow us on Facebook: @SeabreezeAberdovey

Open Mon-Sat
from 7am

TYWYN BAKERY
BY OLIVER'S

01654 712179
Tywynbakery@gmail.com



Steam through unspoiled Snowdonia on the World's First Preserved Railway

01654 710 472
www.talyllyn.co.uk
enquiries@talyllyn.co.uk

RHEILFFORDD TALYLLYN RAILWAY

Please support your local cinema
Voted the 2025/26 UK Cinema of the Year



- Daily Films, Free Live Music every Friday
- Theatre on Screen, Special Events.
- Discounted screening for families and young people every week

www.tywyncinema.co.uk 01654 710260

01654 712575

Proudly supporting your community

co op
Tywyn

Yn falch o gefnogi eich cymuned

Toys, gifts, stationery, cards, hardware, gardening, Seasonal and MORE

Cadfans of Tywyn
...At the heart of the community

01654 710497 Facebook: Cadfans of Tywyn
cadfansoftywyn@yahoo.com

GRAYS

Why not visit Grays new coffee shop while your here

GENESIS
UK.Com LTD
Custom Printing & Embroidery since 1973

Proudly employee owned.

Blodau prydferth am bob achlysur
Beautiful flowers for every occasion

MORAWEL
Tywyn, Gwynedd
LL36
Flowers · Gifts · Vintage
Funerals · Weddings · Special Occasions

07824 360401

www.moraweltywyn.co.uk

SCRUBADUB
CLEANING • LAUNDRY • SUPPLIES
★ Since 2010 ★

SCRUBADUB
Aberdyfi Laundrette 01654 767 143
Tywyn Launderette 01654 288 568
Cleaning Enquiries 07816863667

YSGOL UWCHRADD TYWYN

FFORDD YR ORSAF / STATION ROAD, TYWYN, GWYNEDD, LL36 9EU

Ffon /Telephone 01654 710256 E-bost: swyddfa@tywyn.ysgoliongwynedd.cymru

Pennaeth / Head Teacher: Mr David Thorp Dirprwy Bennaeth / Deputy Head: Mrs Marion Sterritt

Cadwch mewn cysylltiad ar y wefan, X a Facebook am y wybodaeth diweddaraf ar gyfer arholiadau, unrhyw gweithgareddau a newyddion / Please keep in touch via the school website, X and Facebook for the latest information on examinations, activities and news.

www.tywyn.gwynedd.sch.uk

Edrychwch ar ein gwefan ysgol newydd sydd wedi bod wrthi'n cael ei hadeiladu!

Check out our new school website which has been under construction!

www.tywyn.gwynedd.sch.uk

Ysgol Uwchradd Tywyn

Ffordd Yr Orsaf, Tywyn, Gwynedd, LL36 9EU

Pennaeth: Mr David Thorp

ADREF EIN HYSGOL RHIENI DISGYBLION EIN CWRICWLWM I GYMRU CYSYLLTU





Er Cof am Mr Elfyn James
In Memory of Mr Elfyn James

Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Mr Elfyn James yn ddiweddar, bu Mr James yn athro a phennaeth Mathemateg, Dirprwy Bennaeth a Phennaeth Ysgol Uwchradd Tywyn.

Roedd Mr James, neu "Smiler" fel yr oedd yn cael ei adnabod yn annwyl gan genedlaethau o ddisgyblion, yn rhan bwysig iawn o hanes a bywyd Ysgol Uwchradd Tywyn. Roedd yr ysgol a'i chymuned yn agos iawn at ei galon, ac yn ystod ei flynyddoedd yn yr ysgol daeth i adnabod nifer fawr o ddisgyblion a'u teuluoedd ledled Tywyn a'r dalgylch.

Roedd ganddo weledigaeth glir o Ysgol Uwchradd Tywyn fel ysgol gymunedol, ac roedd yn frwd dros greu cyfleoedd i bobl ifanc ymhell y tu hwnt i furiau'r ystafell ddosbarth.

Bu'n gweithio'n agos gyda Chlwb Rotari Tywyn i sefydlu a chefnogi mentrau megis Cerddor y Flwyddyn a Chogydd y Flwyddyn, gan roi cyfleoedd i bobl ifanc arddangos a datblygu eu doniau.

Roedd ganddo hefyd berthynas agos â'r Outward Bound yn Aberdyfi, gan gefnogi disgyblion i fanteisio ar gyfleoedd yno ac i weithio tuag at ennill Gwobr Aur Dug Caeredin.

Roedd ei gyfraniad at y gymuned ehangach hefyd yn sylweddol. Yn ystod ei gyfnod fel Pennaeth, darparwyd darn o dir yr ysgol er mwyn galluogi'r Sgowtiaid a'r Geidiaid i ddatblygu eu canolfan leol.

Un o'i gyfraniadau mwyaf parhaol oedd ei waith gyda'r ganolfan hamdden i ddatblygu rhan o dir yr ysgol yn gae pob tywydd. Mae'r cyfleuster hwn wedi bod yn adnodd pwysig i genedlaethau o ddisgyblion a'r gymuned, ac wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad Clwb Hoci Dysynni. Roedd Mr James hefyd yn benderfynol iawn y dylai disgyblion Ysgol Uwchradd Tywyn allu defnyddio'r adnodd hwn yn rhad ac am ddim. Bu hon yn frwydr hir ac anodd ar adegau, ond roedd yn fater yr oedd yn teimlo'n gryf iawn yn ei gylch.

Mae llawer o'r cyfleoedd, y cysylltiadau cymunedol a'r adnoddau a ddatblygwyd yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol wedi gadael etifeddiaeth barhaol i Ysgol Uwchradd Tywyn a'r gymuned ehangach.

Bydd llawer o gyn-ddisgyblion, staff a theuluoedd yn cofio Mr James gyda hoffter mawr, ac rydym yn ddiolchgar am ei flynyddoedd o wasanaeth a'i ymroddiad i'r ysgol a'i phobl ifanc.

Ar yr achlysur trist hwn, mae pawb yn Ysgol Uwchradd Tywyn yn estyn ein cydymdeimlad dwysaf at blant Mr James, ei deulu a'i ffrindiau.

Gorffwys mewn hedd, Mr James. Diolch am eich gwasanaeth a'ch cyfraniad i Ysgol Uwchradd Tywyn a'i chymuned.

It was with great sadness that we learned of the passing of Mr Elfyn James, former Mathematics teacher, Deputy Headteacher and Headteacher of Ysgol Uwchradd Tywyn.

Mr James, affectionately known as "Smiler" by generations of pupils, was an important part of the history and life of Ysgol Uwchradd Tywyn. The school and its community were very close to his heart, and during his many years at the school he came to know a great number of pupils and their families throughout Tywyn and the surrounding area.

He had a clear vision of Ysgol Uwchradd Tywyn as a community school and was passionate about creating opportunities for young people that extended far beyond the classroom.

He worked closely with Tywyn Rotary Club to establish and support initiatives such as Musician of the Year and Chef of the Year, providing young people with opportunities to showcase and develop their talents.

He also developed a close relationship with Outward Bound in Aberdyfi, supporting pupils to take advantage of the opportunities available there and to work towards achieving their Duke of Edinburgh's Gold Award.

His contribution to the wider community was also significant. During his time as Headteacher, part of the school grounds was made available to enable the Scouts and Guides to develop their local centre.

One of his most enduring contributions was his work with the leisure centre to develop part of the school grounds into an all-weather pitch. This facility has become an important resource for generations of pupils and the wider community and has played a key role in the development of Dysynni Hockey Club. Mr James was also determined that pupils of Ysgol Uwchradd Tywyn should be able to use this facility free of charge. At times this was a long and difficult battle, but it was something about which he felt very strongly.

Many of the opportunities, community partnerships and facilities developed during his time at the school have left a lasting legacy for Ysgol Uwchradd Tywyn and the wider community.

Mr James will be remembered with great affection by many former pupils, staff and families, and we are grateful for his many years of service and dedication to the school and its young people.

At this sad time, everyone at Ysgol Uwchradd Tywyn extends our deepest sympathies to Mr James's children, family and friends.

Rest in peace, Mr James. Thank you for your service and for the lasting contribution you made to Ysgol Uwchradd Tywyn and its community.



Canlyniadau TGAU GCSE Results 2026



Rydym wrth ein boddau yn dathlu llwyddiannau ein disgyblion Blwyddyn 11, sydd wedi derbyn eu canlyniadau TGAU heddiw. Mae'r canlyniadau hyn yn dyst i'r gwaith caled, yr ymrwymiad a'r gwytnwch a ddangoswyd gan ein dysgwyr drwy gydol eu hastudiaethau.
Mae staff, disgyblion a theuluoedd wedi cydweithio i oresgyn heriau a sicrhau bod pob person ifanc wedi cael y cymorth angenrheidiol i wireddu ei botensial. Rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed gan ein disgyblion ar draws ystod eang o bynciau ac edrychwn ymlaen at eu gweld yn cymryd y camau nesaf yn eu haddysg, eu hyfforddiant a'u gyrfaoedd yn y dyfodol.

Dywedodd y Pennaeth, Mr David Thorp:
"Rydym yn hynod falch o'n holl ddisgyblion a'r ymdrech y maent wedi'i dangos drwy gydol eu cyrsiau TGAU a galwedigaethol. Hoffwn hefyd ddiolch i'n staff am eu gwaith eithriadol gyda'n disgyblion drwy gydol eu hamser yn Nhywyn. Mae eu hymrwymiad a'u hymroddiad rhagorol yn sicr wedi cael eu hadlewyrchu yn y canlyniadau hyn. Rydym yn llongyfarch pob disgybl ar eu cyflawniadau ac yn edrych ymlaen at eu gweld yn ffynnu wrth iddynt symud ymlaen at gamau nesaf eu bywydau."




We are delighted to celebrate the achievements of our Year 11 students, who have received their GCSE results today. These results are a testament to the hard work, commitment and resilience shown by our learners throughout their studies.
Staff, students and families have worked together to overcome challenges and ensure that every young person was supported in reaching their potential. We are proud of the progress made by students across a wide range of subjects and look forward to seeing them take the next steps in their education, training and future careers.


Headteacher Mr David Thorp said:
"We are extremely proud of all our students and the effort they have shown throughout their GCSE and vocational courses. I must also thank the exceptional work done by all our staff with our pupils throughout their time at Tywyn – their excellent commitment and dedication have certainly been reflected in these results. We congratulate every student on their achievements and look forwards to seeing them thrive as they move on to the next steps in their lives"









yn YUT ?





yn YUT ?



SNACK-TEMBER

SNACK-TEMBER YN EIN YSGOL!

Mis Medi yma, rydym yn falch o gymryd rhan yn Snack-tember, menter swyddogol gan Sefydliad Maeth Prydain sy'n annog plant a phobl ifanc rhwng 5 ac 16 oed i wneud dewisiadau byrbrydau iachach a mwy cynaliadwy.
Fel rhan o'n gweithgareddau Snack-tember mae ein 'Clwb Chill' wedi bod yn brysur yn y gegin! Mae'r myfyrwyr yn creu y byrbrydau iachus a fydd wedyn yn cael eu rhoi allan am ddim fel samplau y diwrnod canlynol.
Yr wythnos hon, cafwyd Mousse Mefus a bowlenni iogwrt, roeddent yn edrych yn flasus iawn!
Cadwch eich llygaid ar agor am yr hyn fydd ar y fwydlen yr wythnos nesaf!

SNACK-TEMBER IN OUR SCHOOL!

This September, we're excited to be taking part in Snack-tember, an official British Nutrition Foundation initiative, encouraging children and young people aged 5-16 to make healthier and more sustainable snack choices.
As part of our Snack-tember activities, our 'Clwb Chill' has been getting creative in the kitchen!
The students are making healthy snacks which will then be given out free of charge as samples the following day.
This week's tasty creations included Strawberry mousse and yoghurt bowls, they certainly looked delicious!
Keep your eyes peeled for next week's creations!















SNACK-TEMBER YN EIN CLWB! 🍎🍓🍉🫐

Fel rhan o'n gweithgareddau Snack-tember mae ein '**Clwb Chill**' wedi bod yn brysur yn y gegin! Mae'r myfyrwyr yn creu y byrbrydau iachus a fydd wedyn yn cael eu rhoi allan am ddim fel samplau y diwrnod canlynol.
Cafwyd Mousse Mefus a bowlenni iogwrt, a bariau grawnfwyd cartref roeddent yn edrych yn flasus iawn! Da iawn pawb.

SNACK-TEMBER IN OUR CLUB! 🍎🍓🍉🫐

As part of our Snack-tember activities, our '**Clwb Chill**' has been getting creative in the kitchen! The students are making healthy snacks which will then be given out free of charge as samples the following day.
Tasty creations included Strawberry mousse, yoghurt bowls, and home made cereal bars which certainly looked delicious! Well done everyone.

CYMORTH CANSER MACMILLAN

MACMILLAN CANCER SUPPORT

Diolch o galon i bawb a wnaeth ein Bore Coffi Macmillan blynyddol yn gymaint o lwyddiant.
Roedd y cacennau a'r danteithion wedi'u pobi yn wych, ac rydym yn ddiolchgar i'r rhieni, y gofalwyr, y disgyblion a'r staff a gyfrannodd atynt. Diolch i'r holl ddisgyblion a staff a ddaeth draw i'n cefnogi.


Roedd ein Wal Macmillan yn ychwanegiad arbennig at y diwrnod. Ychwanegodd disgyblion a staff luniau a negeseuon ar gyfer eu hanwyliaid, gan greu arddangosfa o gefnogaeth o'r galon. Roedd hi'n ddiwrnod gwirioneddol arbennig. Diolch eto i bawb a gymerodd ran!

A huge thank you to everyone who made our annual Macmillan Coffee Morning such a success.
The cakes and bakes were fantastic, and we're grateful to the parents, carers, pupils and staff who contributed them. Thank you to all the pupils and staff who came along to support us.

Our Macmillan Wall made the day especially moving. Pupils and staff added photographs and messages for loved ones, creating a heartfelt display of support.
Thank you again to everyone who took part!








SWM A GODWYD/
AMOUNT RAISED

£237.76

Ein Wal Macmillan
Our Macmillan Wall
💚💚💚

Bwyd a Sgrin 1,2,3
Film and Screen 1,2,3







Mae ein **Clwb Ffilm** misol wedi dechrau'n wych! 🎬🍿
Y mis hwn, cafodd ein disgyblion Blwyddyn 7 gyfle cyffrous i ddewis y ffilm, a dewiswyd Young Sheldon. Roedd hi'n hyfryd gweld cymysgedd o ddisgyblion yn dod at ei gilydd amser cinio i ymlacio, mwynhau'r ffilm, bwyta eu cinio ac, wrth gwrs, fwynhau'r popcorn oedd ar gael!
Mae digwyddiadau fel y Clwb Ffilm yn rhoi cyfle gwych i ddisgyblion gymryd seibiant o brysurdeb y diwrnod ysgol, treulio amser gyda'u ffrindiau a chwrdd â disgyblion eraill o bob rhan o'r flwyddyn. Mae hefyd yn helpu i greu ymdeimlad cynnes a chadarnhaol o gymuned yn ein hysgol, gan roi cyfle i ddisgyblion gymdeithasu, rhannu diddordebau a meithrin perthnasoedd cadarnhaol mewn awyrgylch hamddenol.
Y mis nesaf, tro Blwyddyn 8 fydd hi i ddewis y ffilm, gan roi cyfle iddynt leisio eu barn a helpu i lunio'r clwb. Edrychwn ymlaen at weld hyd yn oed mwy o ddisgyblion yn cymryd rhan ac yn mwynhau'r digwyddiad gwych hwn amser cinio.
Diolch yn fawr i Miss Bethan am drefnu'r digwyddiad misol gwych hwn ac am greu cyfle arall i'n disgyblion ddod at ei gilydd, ymlacio a mwynhau eu hunain! 🌟

Our monthly **Film Club** has got off to a fantastic start! 🎬🍿
This month, our Year 7 pupils had the exciting opportunity to choose the film, and they selected Young Sheldon. It was wonderful to see such a lovely mix of pupils coming together at lunchtime to relax, enjoy the film, eat their lunch and, of course, tuck into the popcorn on offer!
Events like Film Club provide pupils with a great opportunity to take a break from the busy school day, spend time with friends and meet other pupils from across the year group. It also helps to create a welcoming sense of community within our school, giving pupils a chance to socialise, enjoy a shared interest and build positive relationships in a relaxed environment.
Next month, it will be Year 8's turn to choose the movie, giving them a chance to have their say and help shape the club. We look forward to seeing even more pupils getting involved and enjoying this fantastic lunchtime event.
A big thank you to Miss Bethan for organising such a brilliant monthly event and for creating another opportunity for our pupils to come together, relax and enjoy themselves! 🌟



Byd Deunyddiau: Peirianneg y Dyfodol – Gweithdy STEM

The Material World: Engineering the future STEM Workshop

21/9/26

Ar 21 Medi, cymerodd disgyblion Blynyddoedd 7 ac 8 ran yn y sioe deithiol gyffrous Material World: Engineering the Future, a gyflwynwyd gan Altru Drama gyda chefnogaeth BAE Systems, y Llynges Frenhinol a'r Awyrlu Brenhinol. Drwy gyfuniad diddorol o ddrama, gweithgareddau rhyngweithiol ac enghreifftiau o'r byd go iawn, cafodd y disgyblion gyfle i archwilio byd amrywiol sy'n datblygu'n gyflym ym maes peirianneg. Tynnodd y gweithdy sylw at sut mae peirianwyr yn defnyddio creadigrwydd, sgiliau datrys problemau a gwaith tîm i ddatblygu atebion arloesol sy'n siapio'r byd o'n cwmpas, o ddeunyddiau uwch a thechnolegau cynaliadwy i systemau awyrofod ac amddiffyn.

Anogodd y perfformiad y disgyblion i feddwl am yr ystod eang o yrfaoedd sydd ar gael ym meysydd STEM, yn ogystal â'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo yn y meysydd hyn. Cymerodd ein dysgwyr ran yn frwdfrydig drwy gydol y sesiwn, gan ofyn cwestiynau meddylgar a dangos chwilfrydedd rhagorol ynghylch cyfleoedd yn y dyfodol. Roedd y sioe deithiol yn addysgol ac yn ysbrydoledig, gan helpu'r disgyblion i wneud cysylltiadau rhwng eu dysgu yn yr ystafell ddosbarth a'u gyrfaoedd posibl yn y dyfodol. Hoffem ddiolch i Altru Drama a'u partneriaid am ddarparu profiad mor ddiddorol a chofiadwy i'n disgyblion ym Mlynyddoedd 7 ac 8.

On 21st September, pupils in Years 7 and 8 took part in the exciting Material World: Engineering the Future roadshow, delivered by Altru Drama and supported by BAE Systems, the Royal Navy and the Royal Air Force. Through an engaging combination of drama, interactive activities and real-world examples, pupils explored the diverse and rapidly evolving world of engineering. The workshop highlighted how engineers use creativity, problem-solving and teamwork to develop innovative solutions that shape the world around us, from advanced materials and sustainable technologies to aerospace and defence systems.

The performance encouraged pupils to think about the wide range of careers available in STEM and the skills needed to succeed in these fields. Our learners participated enthusiastically throughout the session, asking thoughtful questions and demonstrating excellent curiosity about future opportunities.

The roadshow was both educational and inspiring, helping pupils to make links between their classroom learning and potential future careers. We would like to thank Altru Drama and their partners for providing such an engaging and memorable experience for our Year 7 and 8 pupils.







🌟 **Mae'n bleser gennym gyflwyno aelodau newydd ein fforymau ysgol! Bydd y disgyblion hyn yn cynrychioli eu cyd-ddisgyblion, yn rhannu syniadau ac yn helpu i lywio bywyd ein hysgol. Gweler y poster atodedig am aelodau pob fforwm. Edrychwn ymlaen at glywed eu syniadau a chydweithio!** 👏

🌟 **We're pleased to introduce our new school forum members! These pupils will represent their peers, share ideas and help shape life at our school. Please see the attached poster for the members of each forum. We look forward to hearing their ideas and working together!** 👏









NOSON AGORED

OPEN EVENING

06/10/26

🌟Diolch yn fawr 🌟

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'n Noson Agored Blwyddyn 5 a 6 neithiwr. Roedd yn bleser mawr eich croesawu i'n hysgol a rhannu ychydig o'r hyn sy'n gwneud ein cymuned ysgol mor arbennig.

Roedd hi'n hyfryd gweld y disgyblion yn archwilio'r gwahanol feysydd dysgu, yn cyfarfod â'n staff ymroddedig ac yn sgwrsio gyda'n disgyblion presennol. Gobeithio i chi fwynhau darganfod mwy am y cyfleoedd, y profiadau a'r gefnogaeth sydd ar gael i'n dysgwyr.

Hoffem hefyd ddiolch yn arbennig i'n disgyblion presennol gwych a roddodd o'u hamser, ochr yn ochr â'u hathrawon, i helpu yn ystod y noson, gan gefnogi'r gwahanol bynciau a gweithgareddau. Roedd eich brwdfrydedd, eich hyder a'ch balchder yn ein hysgol yn amlwg iawn!

Diolch i bawb am eich cefnogaeth — roedd yn noson wych!

Yn y llun – Disgyblion presennol Ysgol Uwchradd Tywyn yn yr Adran Wyddoniaeth



🌟 Thank you 🌟

A huge thank you to all the parents, carers and pupils who joined us for our Year 5 & 6 Open Evening yesterday. It was a pleasure to welcome you to our school and share a little of what makes our school community so special.

It was lovely to see pupils exploring the many different areas of learning, meeting our dedicated staff and chatting with our current pupils. We hope you enjoyed discovering the opportunities, experiences and support available to our learners.

A special thank you to our wonderful current pupils who, alongside their teachers, gave up their time to help throughout the evening, supporting different subjects and activities and helping to make our event such a success. Your enthusiasm, confidence and pride in our school really shone through!

Thank you all for your support — it was a fantastic evening!

Pictured-Current Ysgol Uwchradd Tywyn Pupils in the Science Department 🧪👏







Wythnos Iechyd Meddwl Y Byd
World Mental Health Day Week

💚 Wythnos Iechyd Meddwl y Byd 2026 – Gweithredoedd Bach, Gwahaniaeth Mawr! 💚
Yr wythnos hon, mae ein disgyblion wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau i hybu iechyd meddwl a lles, archwilio eu hemosiynau a darganfod ffyrdd syml o ofalu amdanynt eu hunain ac eraill.
🌈 Dydd Llun – Ymwybyddiaeth Emosiynol: Bu'r disgyblion yn ystyried sut roeddent yn teimlo drwy ddewis gair i ddisgrifio eu hwyliau, gan eu helpu i adnabod a mynegi eu hemosiynau.
💗 Dydd Mawrth – Caredigrwydd a Chysylltiad: Creon ni gadwyn caredigrwydd, gan ddathlu gweithredoedd caredig ac archwilio sut y gall gweithredoedd bach a meddylgar wneud gwahaniaeth mawr i eraill.
🎶 Dydd Mercher – Cerddoriaeth a Hwyliau: Bu'r disgyblion yn archwilio sut y gall cerddoriaeth ddylanwadu ar ein teimladau, gan rannu eu barn am wahanol ganeuon ac ystyried sut y gall cerddoriaeth fod yn rhan o'u strategaethau ymdopi cadarnhaol. Cafwyd cyfle i godi ar ein traed a dawnsio hefyd!
💛 Dydd Iau – Hyder a Phositifrwydd: Anogodd ein gweithgaredd nodiadau gludiog cadarnhaol y disgyblion i fyfyrio ar yr hyn y maent yn falch ohono a'r hyn y maent yn edrych ymlaen ato, gan helpu i feithrin hyder ac agwedd gadarnhaol.
🌟 Dydd Gwener – Gollwng Gafael ac Edrych Ymlaen: Bu'r disgyblion yn archwilio ffyrdd o reoli pryderon, gadael rhai gofidiau ar ôl a chanolbwyntio ar ofalu amdanynt eu hunain dros y penwythnos.
Drwy gydol yr wythnos, rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu ymwybyddiaeth emosiynol, caredigrwydd, cysylltiadau cadarnhaol, hyder a strategaethau ymdopi cadarnhaol.
Yn bwysicaf oll, rydym wedi annog ein disgyblion i sylweddoli nad oes angen gwneud newidiadau mawr bob amser i ofalu am ein hiechyd meddwl — weithiau, y gweithredoedd lleiaf sy'n gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

💚 Cofiwch:
✨ Byddwch yn garedig.
✨ Cadwch mewn cysylltiad.
✨ Gofalwch amdanoch eich hun.
✨ Gofynnwch am help pan fydd ei angen arnoch.
Mae pob gweithred fach yn cyfrif! 💚



Wythnos Iechyd Meddwl Y Byd
World Mental Health Day Week

💚 World Mental Health Week 2026 – Small Actions, Big Difference! 💚

This week, our pupils have been taking part in a range of activities to promote positive mental health and wellbeing, explore their emotions and discover simple ways to look after themselves and others.

🌈 Monday – Emotional Awareness: Pupils checked in with how they were feeling by choosing a word to describe their mood, helping them recognise and express their emotions.

💗 Tuesday – Kindness & Connection: We created a kindness chain, celebrating acts of kindness and exploring how small, thoughtful actions can make a big difference to others.

🎶 Wednesday – Music & Mood: Pupils explored how music can influence their feelings, sharing their thoughts on different songs and considering how music could become part of their own positive coping strategies. There was even some dancing along the way!

💛 Thursday – Confidence & Positivity: Our positive post-it activity encouraged pupils to reflect on what they feel proud of and what they are looking forward to, helping to build confidence and a positive outlook.

🌟 Friday – Letting Go & Looking Forward: Pupils explored ways to manage worries, leave behind things that may be troubling them and focus on looking after themselves over the weekend.

Throughout the week, our focus has been on developing emotional awareness, kindness, connection, confidence and positive coping strategies. Most importantly, we have encouraged pupils to recognise that looking after our mental health doesn't always require big changes — sometimes, the smallest actions can make the biggest difference.



💚 Remember:

✨ Be kind.

✨ Stay connected.

✨ Look after yourself.

Ask for help when you need it.

Every small action counts!














Wythnos Iechyd Meddwl Y Byd
World Mental Health Day Week

















🚆 Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch ar y Rheilffyrdd 🚆

Diolch yn fawr i Network Rail a Thrafnidiaeth Cymru am ymweld â'n hysgol a siarad â'n disgyblion Blwyddyn 7 am bwysigrwydd diogelwch ar y rheilffyrdd.

Roedd y sesiwn yn gyfle gwerthfawr i'n disgyblion ddysgu sut i gadw'n ddiogel o amgylch rheilffyrdd, gorsafoedd a chroesfannau rheilffordd, ac i ddeall pam mae gwneud dewisiadau diogel mor bwysig.

Diolch o galon am gymryd yr amser i ymweld â ni a helpu i gadw ein pobl ifanc yn ddiogel! 💙

#DiogelwchArYRheilffyrdd #NetworkRail #TrafnidiaethCymru #Cadw'nDdiogel #blwyddyn7

🚆 Rail Safety Awareness 🚆

A huge thank you to Network Rail and Transport for Wales for visiting our school and speaking to our Year 7 pupils about the importance of rail safety.

The session was a valuable opportunity for our pupils to learn how to stay safe around railway lines, stations and level crossings, and to understand why making safe choices is so important.

Diolch yn fawr for taking the time to visit us and help keep our young people safe! 💙





📰 Diolch yn Fawr i Dail Dysynni! 💚

Hoffem ddiolch o galon i'n papur newydd cymunedol lleol, Dail Dysynni, am gynnig cyflenwi copïau o'r papur newydd i'n disgyblion eu darllen yn ystod sesiynau cofrestru. 📰📚
